neu ffenestri sy'n wynebu'r briffordd sydd eisoes wedi'u peintio. Ni chymeradwyir peintio adeiladau brics.

Cynteddau

Dylid cadw neu adnewyddu cynteddau, canopïau ac agoriadau lle y bo'n bosibl gan ddefnyddio deunyddiau sy'n cyd-fynd â'r gwreiddiol. Byddai'n rhaid cael Caniatâd Adeilad Rhestredig i dynnu nodweddion gwreiddiol ac mae'n annhebygol y caiff hynny ei gymeradwyo.

Wynebau caled

Mae'n rhaid cael caniatâd cynllunio i osod wynebau caled newydd. Os yw'r rhain o fewn libart Adeilad Rhestredig, codir ffi am geisiadau o'r math.

Coed

Mae coed yn yr Ardal Gadwraeth yn cael eu diogelu. Rhaid i unrhyw un sy'n dymuno torri, tocio, dadwreiddio neu ddinistrio unrhyw goeden dros 75mm mewn diamedr sy'n mesur l.0m uwch ben y ddaear roi 6 wythnos o rybudd o'u bwriad, i'r Awdurdod Cynllunio Lleol.

Mae sawl Gorchymyn Diogelu Coed sy'n ymwneud â choed penodol yn yr Ardal Gadwraeth eisoes mewn bodolaeth. Cysylltwch â Swyddog Diogelu Coed y Cyngor ar 02922 330815 neu e-bostiwch amddiffyncoed@caerdydd.gov.uk i gael cyngor pellach.

Dymchwel

Mae'n rhaid cael Caniatâd Ardal Gadwraeth i ddymchwel y rhan fwyaf o adeiladau (gan gynnwys waliau ac adeiladau allanol). Os ydych yn ystyried dymchwel adeilad dylech gysylltu â'r Adran Gynllunio.

Cyngor Pellach

Gan fod y rhan fwyaf o'r eiddo yn yr Ardal Gadwraeth mewn dwylo preifat, mae ei llwyddiant fel Ardal Gadwraeth yn dibynnu ar gyfraniad a chydweithrediad y trigolion lleol. Mae cyngor pellach ar yr Ardal Gadwraeth a sut i'w diogelu ar gael yn y Gwerthusiad mabwysiedig. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.caerdydd.gov.uk/cadwraeth.

Mae'n rhaid cael Caniatâd Adeilad Rhestredig pan fo gwaith addasu neu ehangu yn effeithiol ar gymeriad adeilad rhestredig neu'r rheiny yn ei libart.

Cofiwch: Mae gwneud gwaith o'r natur hon ar adeilad rhestredig heb gael Caniatâd Adeilad Rhestredig angenrheidiol yn drosedd.

Os ydych yn gwneud gwaith datblygu neu newidiadau sydd angen caniatâd a heb sicrhau'r caniatâd hwnnw, gallwch wynebu camau gorfodi a allai fod yn drafferthus a drud i chi.

Mae map manylach a manylion llawn am yr adeiladau rhestredig yn y pentref ar gael ar ein gwefan:

www.caerdydd.gov.uk/cadwraeth

Pentref Gardd Rhiwbeina

Ardal Gadwraeth

Taflen gyngor i gartrefi

Diweddarwyd Gorffennaf 2015

CARDIFF
CAERDYDD

www.caerdydd.gov.uk/cadwraeth

Rheoli Newid yn Ardal Gadwraeth
Pentref Gardd Rhiwbeina

Cyflwyniad
Mae Pentref Gardd Rhiwbeina yn dangos syniadau arloeswyr cynnar dyluniadau Gerddi Dinas. Cafodd ei ddatblygu gan yr Housing Reform Company a Welsh Town Planning and Housing Trust Ltd yn seiliedig ar y cynllun meistr a baratowyd gan Raymond Unwin, un o Benseiri pennaf y Mudiad Pentrefi Gardd.

Dechreuodd y gwaith datblygu ym 1913 a than 1976 roedd y pentref yn cael ei redeg fel cydweithfa. Roedd yr holl dai yn cael eu rhentu ar sail 'cost yn unig' gyda'r gwaith cynnal a chadw ac atgyweirio yn cael ei wneud yng ngweithdy'r gydweithfa ei hun. Pan ddiddymwyd Garden Village Ltd a gwerthu'r tai i'r tenantiaid oedd yn byw yno, cydnabuwyd bod angen rheoli'r amgylchedd hwn. Roedd dynodiad Ardal Gadwraeth Pentref Gardd Rhiwbeina ym 1976 yn gydnabyddiaeth ffurfiol o'i hanes a'i ansawdd pensaernïol.

Gwerthusiad Ardal Gadwraeth
Ym mis Mawrth 2004, yn dilyn gwerthusiad o'r ardal, mabwysiadwyd canllawiau i ddiogelu a gwella cymeriad yr ardal. Mae'r gwerthusiad mabwysiedig yn nodi hanes a chymeriad yr ardal ynghyd â chynllun ar gyfer ei gwella. Mae hyn yn cynnwys canllawiau o ran diogelu cymeriad yr ardal yn ogystal. Mae'r gwerthusiad mabwysiedig ar gael ar wefan y Cyngor www.caerdydd.gov.uk/cadwraeth.

Caniatâd Adeilad Rhestredig
Yn 2001, cafodd y rhan fwyaf o'r adeiladau yn yr Ardal Gadwraeth eu rhestru gan Cadw oherwydd eu bod o ddiddordeb pensaernïol a hanesyddol arbennig.

Mae'n rhaid cael Caniatâd Adeilad Rhestredig i wneud unrhyw waith dymchwel, addasu neu ehangu sy'n effeithio ar ei gymeriad os yw'r adeilad yn un o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol. Mae hyn yn berthnasol **i bob rhan o'r adeilad** gan gynnwys gwrthrychau a nodweddion adeileddol, mewnol neu allanol, a ph'un ai a yw'r nodwedd wedi'i nodi yn nisgrifiad Cadw o'r adeilad ai peidio.

Rheolau Cynllunio Arbennig
Mae Statws Ardal Gadwraeth yn golygu bod y Cyngor yn meddu ar nifer o bwerau statudol i atal gwneud unrhyw newidiadau i'r adeiladu a all fod yn amhriodol. Dylid cynnal a chadw ac adnewyddu adeiladau presennol gyda gofal a sensitifrwydd.

Ym 1978 daeth Cyfarwyddyd dan Erthygl 4 Gorchymyn Datblygu Cyffredinol 1988 (fel y diwygiwyd 1995) yn weithredol ar gyfer Y Groes, canolbwynt y pentref. Cafodd y Cyfarwyddyd hwn ei ymestyn i gynnwys yr ardal gadwraeth yn ei chyfanrwydd ym 1985 a'i atgyfnerthu ymhellach ym 1991.

Estyniadau ac Addasiadau
Mae'r mesurau diogelu ychwanegol a ddaw yn sgil y Rhestriad a Chyfarwyddyd Erthygl 4 yn golygu bod rhaid cael caniatâd i wneud y rhan fwyaf o addasiadau i adeiladau, gerddi a thir caeedig yn yr Ardal Gadwraeth. Yn gyffredinol, disgwylir safonau uchel o ran dyluniad ac ansawdd y deunyddiau a ddefnyddir ar gyfer datblygiadau newydd ac addasu neu adfer adeiladau presennol. Dylid dylunio unrhyw adeiladau newydd i gyd-fynd â'r ardal o ran ffurf a maint.

Mae ffurf unrhyw estyniad a gynigir yn hanfodol i'w dderbynioldeb, a gall fod yr hyn sy'n addas ar gyfer un math o dŷ fod yn gwbl anaddas i dŷ arall. Er ei bod yn amhosibl gosod set o reolau unffurf ar gyfer yr Ardal Gadwraeth gyfan, mae'r Gwerthusiad (gweler www.caerdydd.gov.uk/cadwraeth) yn rhoi ychydig o gyngor ar beth i'w ystyried os ydych yn meddwl gosod estyniad. Cyn gwneud cais ffurfiol fe'ch cynghorir yn gryf i wneud ymholiad cyn cyflwyno'r cais i weld a yw eich cynlluniau yn debygol o gael eu cymeradwyo drwy www.caerdydd.gov.uk/cynllunio (rhaid talu ffi fach am hyn).

Drysau a Ffenestri
Mae'n rhaid cadw ffenestri gwreiddiol â ffrâm bren yn yr arddull Sioraidd neu ffenestri dalennog. I ddiogelu'r adeiledd ac ymddangosiad hanesyddol, **ni chymeradwyir gosod ffenestri newydd yn lle ffenestri gwreiddiol mewn eiddo rhestredig** oni bai y cyflwynir tystiolaeth gref i ddangos nad oes modd eu hatgyweirio (mae hyn yn anarferol iawn gan fod modd atgyweirio'r rhan fwyaf ohonynt). **Mae'r rheolau hyn yn berthnasol i'r holl ffenestri gwreiddiol** ar adeiladau rhestredig sy'n wynebu'r briffordd neu fel arall.

Gellir atgyweirio sbleisiau sydd wedi pydru heb gael Caniatâd Adeilad Rhestredig lle bo angen. Mae rhestr o seiri coed a all helpu gyda gwaith atgyweirio ar gael yn www.caerdydd.gov.uk/cadwraeth. Mae'n rhaid cael caniatâd cynllunio i osod ffenestri newydd sy'n wynebu'r briffordd. Mae'n rhaid cael Caniatâd Adeilad Rhestredig ar gyfer bron pob math o ffenestri newydd.

Trwsio ffenestri'r Pentref Gardd yn 2015
Llun gan Lazron Matia Preservation Joinery
(02921 328090 – 07843257616 – laz.matia@gmail.com)

Adfer
Os ydych yn bwriadu adfer nodweddion gwreiddiol sydd wedi'u colli cyn i'r rheolau ddod i rym, mae cynlluniau gwreiddiol ar gael ar gyfer llawer o'r tai (gweler y manylion cyswllt ar ddiwedd y daflen hon) ynghyd â chynlluniau nodweddiadol manwl ar gyfer gwaith coed.

Toeau
Dylid cadw deunyddiau'r toeau gwreiddiol a'u hatgyweirio yn hytrach na'u hailosod. Defnyddir llechi o ddau faint ar doeau yn yr Ardal Gadwraeth. Mae gan y tai cynharaf lechi anarferol sy'n mesur 7"x14", tra defnyddiwyd llechi 10"x20" ar y tai a adeiladwyd rhwng 1919-23. Os yw ail-doi yn hanfodol neu os ydych yn gwneud gwaith newydd, mae'n bwysig bod y llechi a ddefnyddir o'r un maint ac ansawdd a'r llechi gwreiddiol ac yn dilyn yr un cynllun.

Simneiau
Mae'r simneiau gwreiddiol yn rhan annatod o ddyluniad yr adeiladau. Os daw'r rhain yn anniogel ac angen eu hatgyweirio dylid eu hail-adeiladu ar yr un uchder a'r dyluniad gwreiddiol, hyd yn oed os nad ydynt yn cael eu defnyddio mwyach.

Ffenestri dormer a ffenestri to
Mae'n annhebygol y cymeradwyir gosod ffenestri dormer lle gellir eu gweld o'r stryd. Mae'n annhebygol y cymeradwyir gosod goleuadau to ar adeiladau rhestredig hefyd gan nad ydych yn diogelu cymeriad neu ymddangosiad yr adeilad.

Dysglau Lloeren
Mae'n rhaid cael caniatâd i osod dysglau lloeren os ydynt yn weladwy o'r briffordd (mae ffi yn daladwy am hyn). Mae'n rhaid cael Caniatâd Adeilad Rhestredig ar eu cyfer os bwriedir eu gosod ar adeilad rhestredig yn ogystal. Mae'n annhebygol y cymeradwyir eu gosod ar adeilad rhestredig neu os ydynt yn weladwy o'r briffordd.

Tir Caeedig
Dylid cadw'r gwrychoedd o amgylch gerddi blaen neu ochr ac ni ddylid eu hailosod â gwahanol fathau o waith brics, blociau neu ffensys nad ydynt yn cyd-fynd â'r rhai gwreiddiol. Bydd rhaid cael caniatâd cynllunio ar gyfer codi'r rhan fwyaf o ffensys neu waliau newydd. Gall Swyddog Diogelu Coed y Cyngor (gweler drosodd) gynnig cyngor ar rywogaethau gwrychoedd addas ar gyfer gwrychoedd newydd neu ailosod gwrychoedd.

Arwynebau Waliau
Mae'n rhaid cael caniatâd cynllunio (mae ffi yn daladwy) i orchuddio gwaith brics/cerrig ag unrhyw arwynebau carreg artiffisial, render neu driniaeth arwyneb arall ac o bosib, caniatâd adeilad rhestredig. Efallai na fydd rhaid cael caniatâd i ail-rendro er mwyn creu'r un ymddangosiad, ond dylech ofyn am gyngor yn gyntaf. Dylid bod yn ofalus wrth ail-bwyntio rhag ofn difrodi golwg gwaith brics.

Peintio
Mae'n rhaid cael caniatâd cynllunio i orchuddio deunydd waliau gwreiddiol drwy eu peintio a newid lliw waliau allanol, gwaith cerrig